# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Llun, 25 Mehefin 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd S.L. Davies (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen (In place of H.I. Jones), D.M. Cundy, W.R.A. Davies, H.L. Davies, W.T. Evans (In place of C.A. Davies), S.J.G. Gilasbey, B.W. Jones, H.B. Shepardson, B.A.L. Roberts, G.B. Thomas and A.Vaughan Owen

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai
P. Hughes-Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
L.M. Stephens, Dirprwy Arweinydd y Cyngor

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
I. Jones, Pennaeth Hamdden
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
J. Davies, Uwch-reolwr y Gwasanaethau Diwylliannol
E. Retallick, Pen Swyddog y Celfyddydau
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Morris, Swyddog Monitro a Gweithredu
S. Casey, Rheolwr Datblygu Theatrau

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 10.00  - 11.50 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies, H.I. Jones a S. Matthews.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Aled Vaughan Owen | 7 - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2017/18 | Deiliad Trwydded - Neuadd Chwaraeon y Gwendraeth |

## 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 5. STRATEGAETH SIR GAERFYRDDIN AR GYFER Y CELFYDDYDAU

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ynghylch Strategaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer y Celfyddydau 2018-2022, a oedd yn cynnig fframwaith ar gyfer datblygu gwasanaethau i gefnogi gweledigaeth y Cyngor o fod yn lle ar gyfer profiadau celfyddydol eithriadol sy'n ysgogi ac yn ennyn diddordeb ein cymunedau ac yn dathlu ei ddiwylliant unigryw a dwyieithog. Er mwyn tanategu'r weledigaeth honno, roedd y strategaeth yn nodi'r pedwar amcan allweddol canlynol:-

- Llesiant Diwylliannol;
- Llesiant corfforol a meddyliol;
- Llesiant economaidd drwy gefnogi sefydliadau creadigol a diwylliannol a;
- Datblygu a chynnal gwasanaeth celfyddydau sy'n effeithlon ac yn effeithiol (drwy wella'r incwm a gynhyrchir, dulliau arloesol o weithio, cydweithio a chryfhau ymgysylltiad â'r cyhoedd).

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod y cyflwyniad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sefydlu canolfannau creadigol a chymdeithasol, a oedd yn gysylltiedig â defnyddio cyfleusterau'r Cyngor gan ganolbwyntio mwy ar y gymuned drwy sicrhau y gall cymunedau ddefnyddio'r cyfleusterau at ddibenion cymunedol, er enghraifft, cynyrchiadau theatr, dosbarthiadau dawnsio a lleoedd i bobl hŷn ddod at ei gilydd a chymdeithasu.
- Cyfeiriwyd at y cynigion arfaethedig ar gyfer ailddatblygu Oriel Myrddin, a fydd yn cynnwys 26-27 Heol y Brenin, Caerfyrddin. Er yr amcangyfrifir y bydd y cynllun yn costio oddeutu £2.5m, cadarnhaywd y gallai cyllid Cyngor y Celfyddydau ddarparu £1m i gynorthwyo â'r gost honno. Roedd y Cyngor eisoes wedi cyfrannu £250k er mwyn prynu 26-27 Heol y Brenin. Byddai angen cael arian cyfatebol ar gyfer yr £1.25m sydd ar ôl gan y Cyngor neu ffrydiau incwm/grantiau eraill.
- Cyfeiriwyd at y gwaith o weithredu Canolfan Grefftau Sanclêr, lle roedd cynnydd mewn gwariant wedi bod o o £74,498 yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15, i £110,747 yn 2017/18, tra bo nifer yr ymwelwyr wedi gostwng 5,000, o 41,765 i 36,240.

  Dywedodd Pen-swyddog y Celfyddydau, wrth gyfeirio at sefyllfa ariannol 2017/18, y gallai'r cynnydd fod yn gysylltiedig â nifer o ffactorau. Honno oedd y flwyddyn gyntaf i'r ganolfan gael ei staffio'n llawn. Yn ail, defnyddiwyd gwariant cyfalaf er mwyn uwchraddio'r cyfleusterau cynadledda ac offer y caffi ar ôl i'r cyfrifoldeb dros weithredu'r caffi gael ei ysgwyddo'n fewnol. Yn y bôn, roedd wedi bod yn angenrheidiol i'r Awdurdod ysgwyddo costau'r ganolfan er mwyn hwyluso ei datblygiad. Ar gyfer 2018/19, roedd yr ymdrechion yn canolbwyntio ar reoli costau a chynyddu incwm.

  O ran y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr, roedd strategaethau wedi'u cyflwyno gyda'r nod o'i chynyddu. Er enghraifft, pwyslais ar glybiau mewn perthynas â'r celfyddydau, iechyd, bwyd a chyfeillgarwch a dosbarthiadau crochenwaith, ynghyd â ffrydiau incwm eraill.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyflwyno'r celfyddydau mewn ysgolion, cadarnhawyd bod Oriel Myrddin wedi penodi Swyddog Addysg y Celfyddydau, gyda'r nod o ymgysylltu'n rhagweithiol ag ysgolion dros y

blynyddoedd nesaf. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cyfathrebu'n agos â Chyngor Celfyddydau Cymru o ran hynny.

- Cyfeiriwyd at bedwar amcan allweddol y strategaeth, a gofynnwyd a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i fabwysiadu pumed amcan sef 'nodi dyheadau, talentau a sgiliau drwy ein hysgolion i gynnal ein blaenoriaethau strategol diwylliannol ymhellach'.

  Cadarnhawyd y gellid trafod hynny â'r Adran Addysg wrth i'r strategaeth gael ei rhoi ar waith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell i'r Bwrdd Gweithredol fabwysiadu'r Strategaeth.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2017/18

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer 2017/18, a luniwyd yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nodwyd bod yr adroddiad yn darparu'r canlynol:-

- ➢ Trosolwg ar berfformiad 2017/18,
- ➢ Adroddiadau dwy dudalen ynghylch cynnydd pob un o'r 15 Amcan Llesiant,
- ➢ Dolen gyswllt er mwyn olrhain cynnydd pob cam a tharged a bennir ar gyfer pob Amcan Llesiant,
- ➢ Yn yr atodiadau, gwybodaeth arall am berfformiad a data alldro (mis Medi) a chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (mis Mehefin) a fyddai'n cael eu diweddaru wrth i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y cynnydd mewn lefelau gordewdra yn ystod plentyndod yn y Sir, ac at sut y gellid annog/hyrwyddo gweithgarwch corfforol pan oedd parciau a chyfleusterau hamdden eraill yn cael eu cau.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden mai un o amcanion allweddol yr Is-adran Hamdden oedd hyrwyddo a datblygu gweithgareddau corfforol drwy weithio gyda chymunedau lleol a chlybiau chwaraeon, lle nodwyd bod lefelau cyfranogi'n tueddu i fod yn uwch os yw'r clwb ym mherchnogaeth y gymuned. Nodwyd bod yr adroddiad wedi nodi cynnydd o 10% yn nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd, felly mae wedi cynyddu i 47%. Fodd bynnag, derbyniwyd bod angen gwneud rhagor o waith i gyflawni lefelau uwch o weithgaredd, nid yn unig ymhlith y plant ond ymhlith y boblogaeth gyfan.
- Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at nodau'r Cyngor o hyrwyddo twf economaidd mewn trefi marchnad gwledig ac at sut yr oedd y gwaith hwnnw'n cael ei rwystro gan yr arfer o 'fancio tir'

  Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod y tir sydd ar gael mewn ardaloedd o'r math ar gyfer creu cyfleoedd gwaith yn gyfyngedig, ond bod y Cyngor yn gallu rhoi cymhellion i hyrwyddo a hwyluso'u datblygiad drwy arian grant a chymhellion eraill.

  Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Rheolwr Blaen-gynllunio fod gwaith wedi'i ddechrau'n ddiweddar o ran Cynllun Datblygu Lleol newydd i Sir

Gaerfyrddin, a bod ceisiadau'n cael eu ceisio ar hyn o bryd ar gyfer safleoedd ymgeisio i'w cynnwys y cynllun hwnnw. Fel rhan o'r broses honno, byddai angen i berchnogion tir ddangos ymrwymiad i ddatblygiad safle er mwyn cyfiawnhau ei gynnwys, gan nad yw dangos dymuniad i ddatblygu'r safle yn ddigon erbyn hyn.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch datblygiad yr Egin yn nhref Caerfyrddin, a'r lleoedd sydd ar gael i gwmnïau eraill yn yr Egin, cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod trafodaethau'n parhau er mwyn sicrhau bod pob lle yn cael ei lenwi. Os bydd gormod o gwmnïau'n dangos diddordeb, gwneir ymdrech i ddod o hyd i adeilad priodol arall. Nodwyd mai'r Egin oedd un o 11 Prosiect Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd â'r nod o ddatblygu'r diwydiant creadigol ledled y rhanbarth.
- Cyfeiriwyd at 'Raglen Esgyn' a gofynnwyd am eglurhad a yw'n helpu pobl i ddysgu Cymraeg er mwyn dychwelyd i'r gwaith ac os gellid rhoi gwybodaeth am nifer y bobl ar y rhaglen sydd wedi dysgu Cymraeg ac sy'n parhau i'w defnyddio.
  Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd y byddai'r swyddogion yn edrych ar ddatblygiad Sgiliau Iaith Gymraeg ac y byddant yn rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y cynigion sydd wedi bodoli ers tro ar gyfer ffordd osgoi Llandeilo, cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Economaidd nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu penderfynu ar y llwybr a ffefrir hyd yn hyn.
- Cyfeiriwyd at y defnydd o Gytundebau Adran 106 i hwyluso'r gwaith o ddarparu 43 o dai ar gyfer perchentyaeth cost isel. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y posibilrwydd o'r datblygwyr yn ymddiddymu, a'r potensial bod y tai hynny heb fodloni'r gofyniad o 80% o dan y Cytundeb, gan olygu na fydd y perchnogion yn gallu gwerthu eu heiddo.
  Dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio fod yr Adran yn ymwybodol o'r posibilrwydd a'i bod yn cysylltu ag adain y gyfraith yn y Cyngor ynghylch y terminoleg a ddefnyddir yn y Cytundebau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2017/18 yn cael ei dderbyn.**

## 7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2017/18

(NODER: Roedd y Cynghorydd A. Vaughan Owen wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer diwedd blwyddyn 2017/18 ar gyfer y Gwasanaethau Tai, Adfywio, Cynllunio a Hamdden. Nodwyd y ceir gorwariant o £311k yn y gyllideb refeniw, tanwariant o £7,228 yn y gyllideb gyfalaf, ac y rhagwelid tanwariant o £22k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn mewn perthynas â'r diffyg ariannol o £264k a ragwelir o ran Rheoli Datblygu, cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio fod y lefelau incwm a ragwelir yn cael eu harwain gan y farchnad ac y gellid cysylltu'r diffyg ar gyfer 2017/18 â nifer o gynlluniau mawr arfaethedig oedd heb gael eu cyflwyno.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y gorwariant o £249k ar safleoedd yn y Cyfrif Refeniw Tai, dywedodd Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod hyn yn gysylltiedig yn bennaf â gwariant a geir wrth wneud gwaith cynnal a chadw mewn rhai o ystadau tai'r Cyngor e.e. atgyweiriadau i ffensys, gan nad oedd darpariaeth ar gyfer hyn yn y gyllideb. Fodd bynnag, roedd yna ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer 2018/19.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyled yn y Cyfrif Refeniw Tai, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr Awdurdod wedi gwneud darpariaeth yn ei gyfrifon bob blwyddyn er mwyn mynd i'r afael â drwgddyled. Ar gyfer 2017/18, y ddarpariaeth oedd £472k, fodd bynnag, swm y drwgddyled oedd £218k, gan arwain at danwariant o £254k yn y gyllideb.
- Cyfeiriwyd at y tanwariant o £475k yn y gyllideb i sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto ac i fodloni Safon Tai Sir Gaerfyrddin. Dywedodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel wrth y Pwyllgor fod y cynllun yn cynnwys gwneud gwelliannau i oddeutu 70 eiddo, a bod angen gwario cyfartaledd o £30-£40k ar bob un ohonynt er mwyn cydymffurfio â'r safonau. Er bod cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer cwblhau'r gwaith yn 2017/18, nid oedd modd cwblhau'r holl waith a gynlluniwyd a byddai'r tanwariant yn cael ei gario drosodd i 2018/19.
- Mewn ymateb i gwestiwn, rhoddodd y Pennaeth Hamdden y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym Mharc Gwledig Pen-bre, a oedd yn cynnwys y canlynol:
  - Darparu pwyntiau trydan ychwanegol yn y maes carafannau
  - Cyflwyno system archebu ar-lein ar gyfer y maes carafannau
  - Gosod Wi-fi yn y dyfodol agos
  - Adnewyddu'r bwyty presennol dros y gaeaf yn barod ar gyfer tymor 2019
  - Roedd y gylchffordd feicio gaeedig bron wedi'i chwblhau.
  - Roedd y siop yn y ganolfan sgïo wedi cau erbyn hyn a byddai'n cael ei haddasu at ddefnydd amlddisgyblaethol.
  - Byddai Taith Prydain 2018 yn dechrau yn y parc ar 2 Medi
- Cyfeiriodd y Pwyllgor at Daith Prydain a llongyfarch yr holl staff a gymerodd ran yn y trefniadau o ddod â'r digwyddiad mawreddog hwn i Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf yn cael ei dderbyn.**

## 8. GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL DRAFFT – CANOL TREF LLANELLI

Yn dilyn ei gyfarfod ar 30 Mawrth 2017 (gweler Cofnod 5), cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ynghylch y bwriad i gyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol Drafft ar gyfer canol tref Llanelli, ynghyd â chanlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 18 Rhagfyr 2017 a 9 Chwefror 2018, ac ymatebion y swyddogion.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at gynnwys y Map Perygl Llifogydd ar gyfer tref Llanelli yn yr adroddiad, a gofynnwyd am eglurdeb o ran a allai 'Prosiect GlawLif' sy'n cael ei gyflawni gan Dŵr Cymru gael effaith ar y perygl hwnnw.

Cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio y gallai'r gwaith gael effaith ac y byddai'r ddealltwriaeth o ran hyn yn cael ei chynnwys yn y dadansoddiad o berygl llifogydd. Roedd y sefyllfa'n newid yn barhaus a byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro a'i hail-arfarnu wrth i amser fynd rhagddo, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyfnod arfaethedig y Gorchymyn o dair blynedd, dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio fod yr amserlen yn briodol er mwyn caniatáu amser i asesu ei ganlyniadau, gan gyd-fynd â datblygiad y CDLl newydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL/Y CYNGOR:-**

**8.1 Nodi'r sylwadau sydd wedi dod i law mewn perthynas â'r Gorchymyn Datblygu Lleol Drafft ar gyfer Canol Tref Llanelli;**
**8.2 Derbyn argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad;**
**8.3 Nodi cyflwyniad y Gorchymyn Datblygu Lleol (sy'n cynnwys argymhellion yr adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf am dystiolaeth) i Lywodraeth Cymru gael cytuno arno;**
**8.4 Nodi'r gofynion o ran diweddaru'r sylfaen dystiolaeth a gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Gorchymyn Datblygu Lleol, a sicrhau bod unrhyw faterion ychwanegol o ran cydymffurfiaeth gyfreithiol hefyd yn cael eu hintegreiddio.**

## 9. TROSOLWG O ADRAN 106 A CHYFRANIADAU DATBLYGWYR

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch Cytundebau Adran 106 a amlinellai gefndir rhwymedigaethau cynllunio, y broses o ymgeisio am gyfraniadau datblygwr ynghyd â throsolwg ar yr incwm a'r gwariant ar gyfer 2017/18.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch clustnodi arian Adran 106, cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio y byddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynlluniau heb gyfalaf mewn cymunedau, ar yr amod fod hyn yn unol â darpariaethau'r cytundeb cyfreithiol.
- Cyfeiriwyd at y potensial i fwy nag un cynllun gael ei ystyried ar gyfer arian Adran 106, a gofynnwyd am eglurdeb o ran sut y byddai'r rheiny yn cael eu harfarnu a sut y byddai'r cynllun llwyddiannus yn cael ei ddewis.

  Dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio y byddai'r Awdurdod yn cyflawni hyn drwy weithio ac ymgynghori ag ymgeiswyr gan gynnwys cynghorwyr tref/cymuned lleol, ynghyd â chyrff eraill sydd â diddordeb, er mwyn asesu pa gynllun fyddai orau i fodloni telerau Cytundeb Adran 106 a diwallu anghenion y gymuned.
- Mewn ymateb i sylw a geir ynghylch cynnwys cynghorwyr sir lleol mewn trafodaethau Adran 106 yn gynnar, cafodd aelodau eu hannog gan y Rheolwr Blaen-gynllunio i gwrdd â Swyddogion Achos Rheoli Datblygu i drafod y potensial o gael Cytundebau cyfraniadau 106 cyn gynted â phosibl a chyfeiriwyd at gyhoeddi rhestrau cynllunio wythnosol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 10. BYNGALOS FFORDDIADWY YN SIR GAERFYRDDIN

Yn unol â Chofnod 7 ei gyfarfod 29 Mawrth 2018, cafodd y Pwyllgor ddogfen gwmpasu ynghylch y potensial o sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o ran darparu Byngalos Fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â'r angen yn y dyfodol a'r opsiynau o ran eu darparu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**10.1 Dderbyn y ddogfen gwmpasu.**
**10.2 Bod y Pwyllgor yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn archwilio'r ddarpariaeth o ran Byngalos Fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin**
**10.3 Bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 6 aelod, ei fod yn wleidyddol gytbwys, a bod gofyn i'r grwpiau gwleidyddol gyflwyno enwebiadau ar gyfer gwasanaethu ar y Grŵp gan eu haelodau sydd ar y Pwyllgor.**

## 11. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 21 Medi 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn rhestr o'r eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 21 Medi 2018.**

## 12. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADDRODIAD CRAFFU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhesymau a roddwyd dros beidio â chyflwyno dau adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad nad oedd wedi'i gyflwyno.**

## 13. DIWEDDARIAD GWEITHREDU CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a nodai'r hyn a wnaed mewn perthynas â'r camau, ceisiadau, neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 14. LLOFNODI YN GOFNODAU CYWIR COFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 11EG MAI, 2018

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 11 Mai 2018 gan eu bod yn gywir.**

CADEIRYDD DYDDIAD

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales